**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1459
Ein cyf/Our ref HIDCC/10173/24

Carolyn Thomas MS
Chair - Petitions committee

02 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Chwefror ynghylch deiseb P-06-1459: 'Mae datblygiadau ffermydd gwynt yn debyg i foddi cymoedd Cymru a'r hen ddiwydiant llechi. Stopiwch nhw."

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiadau statudol i gyrraedd sero-net, ac mewn argyfwng hinsawdd a natur rydym yn cydnabod yr angen i gefnogi datblygu system ynni adnewyddadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd y prosiectau ynni adnewyddadwy hyn nid yn unig wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ond hefyd o ran dod â manteision economaidd a natur i Gymru. Rwyf am ei gwneud yn glir ein bod yn deall, er mwyn cyrraedd ein targed i gyrraedd yr hyn sy'n cyfateb i 100% o'n defnydd trydan blynyddol o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035, y bydd angen amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy o wahanol fathau a graddfeydd. Ynni gwynt ac ynni'r haul yw'r technolegau mwyaf aeddfed a chost-effeithiol, a hwy sy'n debygol o wneud y cyfraniad mwyaf sylweddol i'n cymysgedd o ynni yn y tymor byr i ganolig.

Yn yr un modd, mae Llywodraeth y DU bellach wedi codi'r gwaharddiad ar ddatblygiadau ffermydd gwynt yn Lloegr ac mae bellach yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y ffordd orau o annog buddsoddiad o'r newydd mewn ffermydd gwynt ar y tir yn Lloegr.

Ni allaf wneud sylw ar gynlluniau ar gyfer prosiectau unigol fel Fferm Wynt Gaerwen gan y gallai hyn gyfaddawdu'r broses o wneud penderfyniadau yn eu cylch. Fodd bynnag, mae polisïau 17 ac 18 o Gymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr.

Mae Polisi 17 yn nodi 10 o 'Ardaloedd a Aseswyd ymlaen llaw' (PAAs) y canfuwyd bod yr egwyddor o effaith ffermydd gwynt ar y dirwedd yn dderbyniol ynddynt. O fewn PAAs mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ffermydd gwynt. Fodd bynnag, mae unrhyw geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno yn y meysydd hyn yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r meini prawf asesu a nodir ym mholisi 18 ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae meini prawf Polisi 18 yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael eu hasesu'n drylwyr fel bod cymunedau, ardaloedd a thirweddau dynodedig, a chynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig yn cael eu diogelu rhag effeithiau niweidiol annerbyniol. Wrth asesu cynigion datblygu newydd mae Polisi 18 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried effaith gronnol cynlluniau presennol a rhai a gydsyniwyd.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau (adran 6), ac wrth wneud hynny ddiogelu cynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf (adran 7). Mae cynefinoedd sy'n cael eu hystyried yn anadferadwy (gan gynnwys mawndiroedd) yn cael eu gwarchod yn ychwanegol fel rhan o ddull fesul cam Deddf yr Amgylchedd.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y ddeiseb, ac edrychaf ymlaen at glywed barn y Pwyllgor Deisebau ar y pwnc hwn.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs